

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg,
Practis Deintyddol Glyn-
nedd**

18 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd	14
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Glyn-nedd, 25 Stryd Fawr, Glyn-nedd, SA11 5BS, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 18 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Glyn-nedd yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, therapydd deintyddol, tair nyrs ddeintyddol, derbynnydd, a rheolwr practis.

Mae Practis Deintyddol Glyn-nedd yn bractis hyfforddiant sylfaenol hefyd, sy'n cynorthwyo deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf ym maes deintyddiaeth (ar ôl cwblhau eu gradd prifysgol) trwy ddarparu goruchwyliaeth gan hyfforddwr neilltuedig. Ar adeg ein harolygiad, roedd deintydd cyfnod sylfaen o dan hyfforddiant yn gweithio yn y practis.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC ystyried sut roedd Practis Deintyddol Glyn-nedd yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar eu profiadau, dywedodd cleifion a oedd wedi cwblhau a dychwelyd holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roedd y practis yn ei ddarparu.

Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ar gael. Gwnaethom argymhell bod y practis yn adolygu ei daflen gwybodaeth er mwyn iddi fod ar gael mewn print bras.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael, pe bai argyfwng cleifion (llewyg), ac roedd y staff yn dangos eu bod yn gwybod sut i weithredu er mwyn ymateb i argyfwng o'r fath. Rydym wedi gofyn i berchnogion y practis ddatblygu polisi dadebru cyffredinol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol, a thrin, storio a gwaredu gwastraff.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus, ac yn cynnwys yr holl gyfarpar ac offer deintyddol perthnasol. Gwelsom y byddai un o'r ystafelloedd triniaeth yn elwa ar newid y sêl rhwng y wal a'r llawr er mwyn galluogi staff i lanhau'r man hwn yn effeithiol.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion wedi cael eu cynnal yn dda; fodd bynnag, gwnaethom nodi maes i'w wella ynglŷn â'r broses o gofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg yn y nodiadau.

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Gwelsom fod safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar eu profiadau, dywedodd cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roedd y practis yn ei ddarparu.

Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ar gael. Gwnaethom argymhell bod y practis yn adolygu ei daflen gwybodaeth er mwyn iddi fod ar gael mewn print bras.

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i reolwr y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 23 o holiaduron a oedd wedi eu cwblhau cyn ein hymweliad arolygu.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Dywedodd yr holl gleifion oedd wedi dychwelyd yr holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol. Yn ogystal, dywedodd yr holl gleifion fod tîm y practis wedi rhoi croeso iddynt, a'u bod wedyn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaeth rhai cleifion sylwadau ychwanegol am eu profiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

'Mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar.'

'Gwasanaeth da.'

'Dw i wedi cael yr holl bersonél yn y practis hwn yn gwrtais, yn gyfeillgar, ac yn broffesiynol.'

'Gwasanaeth ardderchog.'

Ar y cyfan, dywedodd cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Fodd bynnag, dywedodd rhai ohonynt (deg o gleifion) nad oeddent yn gwybod. Roedd y rhif cyswllt mewn argyfwng wedi'i arddangos yn y practis, a dywedwyd wrthym ei fod ar gael ar neges peiriant ateb y practis. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ymatebion a wnaethom eu derbyn, gallai perchnogion y practis ystyried sut y gellid codi ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn i'w dilyn ymhellach.

Dywedodd pob claf a oedd wedi cwblhau'r holiaduron nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd

ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cynnal arolwg cleifion o fewn y 12 mis diwethaf, a gwelsom holiaduron wedi'u cwblhau a oedd yn rhoi tystiolaeth o'r broses. Dywedwyd wrthym fod blwch awgrymiadau ar gael er mwyn i gleifion roi adborth ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd hyn yn golygu bod gan y cleifion y cyfle i roi sylwadau ar eu profiad, er mwyn i dîm y practis eu hystyried – gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth lle bo hynny'n briodol.

Roedd taflen bractis ar gael y gallai'r cleifion fynd â hi. Roedd hyn yn rhoi gwybodaeth ymarferol a defnyddiol am dîm y practis, a'r gwasanaethau a oedd ar gael. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan y practis. Er bod taflen bractis ar gael, canfuom fod maint y print yn fach. Gallai hyn achosi anawsterau ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg. Gwnaeth perchnogion y practis a'r rheolwr groesawu ein hargymhelliad i adolygu'r daflen er mwyn iddi fod ar gael mewn print mwy.

Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi'u harddangos, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer derbyn triniaeth y GIG am ddim. Roedd prisiau hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion a oedd yn ymweld â'r practis fynediad hawdd at wybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth a chynghor ar gael i gleifion i'w helpu i ofalu dros eu hunain am hylendid y geg a'u hiechyd.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (llewyg), a dangosodd y staff eu bod yn gwybod sut i weithredu er mwyn ymateb i argyfwng o'r fath. Rydym wedi gofyn i berchnogion y practis ddatblygu polisi dadebru cyffredinol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol, a thrin, storio a gwaredu gwastraff.

Roedd yr holl gyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus ac yn cynnwys y cyfarpar a'r offer deintyddol perthnasol. Gwelsom y byddai un o'r ystafelloedd triniaeth yn elwa ar newid y sêl rhwng y wal a'r llawr, er mwyn galluogi staff i lanhau'r man hwn yn effeithiol.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion wedi cael eu cynnal yn dda; fodd bynnag, gwnaethom nodi maes i'w wella ynglŷn â'r broses o gofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg yn y nodiadau.

Cyfarpar/dogfennaeth radiograffig

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Roedd dogfennaeth a gwybodaeth berthnasol ar gael ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X a oedd yn y practis yn ddiogel. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis, ac roedd y rhain wedi cael eu diweddarau. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, ac roedd hyn wedi cael ei ddiweddarau.

Roedd sganiau pelydr-X digidol yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod ansawdd delwedd y rhain wedi cael ei raddio, ei gofnodi a'i archwilio fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Nod y broses hon oedd nodi unrhyw faterion ynglŷn ag ansawdd sy'n ailgodi'n rheolaidd, er mwyn gwneud addasiadau yn ôl yr angen, i sicrhau bod sganiau pelydr-X o safon ddigonol.

Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewygu) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u rolau penodol pe bai argyfwng claf.

Er bod cyfres o siartiau llif ar gael, nid oedd gan y practis polisi dadebru ysgrifenedig cyffredinol. Dylai'r polisi hwn gynnwys trefniadau ar gyfer storio cyfarpar a chyffuriau brys (pan nad ydynt yn cael eu defnyddio), a'r trefniadau ar gyfer gwirio'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis a rheolwr y practis, a gwnaethant gytuno i ddatblygu polisi addas.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod polisi dadebru ysgrifenedig cyffredinol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y practis, a'i fod yn cael ei rannu ag aelodau perthnasol o dîm y practis.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, nid oedd uned sugno gludadwy a oedd yn gweithio ar gael. Dywedodd perchnogion y practis ei bod wedi cael ei nodi'n ddiffygiol, a bod uned sugno gludadwy newydd wedi cael ei harchebu. Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu o fewn 24 awr i'n harolygiad bod yr uned newydd wedi cyrraedd y practis.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd, o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn cadarnhau hyn.

Roedd system ar waith er mwyn canfod cyffuriau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio a chyflenwi rhai newydd yn eu lle, a hefyd i wirio'r offer brys yn y practis. Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb awdurdod rhag eu defnyddio.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra ei fod yn aros i gael ei gasglu.

Roedd gan y practis ddidolwyr amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (llenwadau) o ddŵr gwastraff yn ddiogel. Yn ogystal, roedd cynwysyddion addas ar gael i gadw dannedd a dynnwyd, gan gynnwys rhai gyda llenwadau amalgam, tra oeddent yn aros i gael eu gwaredu'n ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) yr offer deintyddol a ddefnyddir yn y practis, a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁴ (Adolygiad 1).

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn y practis, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau'r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol. Roedd cofnodion o wiriadau wedi'u cynnal, ac roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gael ar gyfer y peiriant awtoclaf.⁵

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi'u pecynnu'n briodol er mwyn lleihau'r risg o heintio wrth iddynt gael eu storio. Roedd dyddiad prosesu (glanhau) wedi cael ei nodi ar becynnau offerynnau deintyddol a oedd wedi cael eu storio, ynghyd â'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod y tîm deintyddol wedi asesu eu hymarfer yn unol â'r polisi, a'r cyfarwyddyd a amlinellir ynddi. Roedd tîm y practis wedi nodi meysydd i'w gwella o ganlyniad i'r archwiliad, ac roedd y cofnodion a welsom yn dynodi bod camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Roedd tystysgrifau hyfforddi yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddadheintio.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar holl gyfleusterau clinigol yn y practis. Canfuom fod y rhain yn lân ac yn daclus, ac, ar y cyfan, wedi'u dodrefnu er mwyn hwyluso glanhau rhwydd ac effeithiol. Gwnaethom nodi y byddai un o'r ystafelloedd

⁴ Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Adolygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

⁵ Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

triniaeth yn elwa ar newid y sêl rhwng y wal a'r llawr er mwyn galluogi staff i lanhau'r man hwn yn effeithiol. Cytunodd perchnogion y practis i roi sylw i'r mater hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn cael ei newid (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau rhwng wal a llawr yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw perchnogion y practis atynt.

Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro ar gael er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael ar gyfer y cywasgydd⁶ a ddefnyddir yn y practis.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom ystyried sampl o 12 o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi cael eu cwblhau gan bob un o'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad.

Ar y cyfan, roedd y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arni yn gynhwysfawr, ac yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys manylion penodol ynglŷn â'r sgrinio ar gyfer canser y geg a gynhaliwyd yn ystod archwiliadau deintyddol. Gwnaethom hysbysu perchnogion y practis am y mater hwn, a gwnaethant roi sicrwydd inni fod sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gynnal, a chytuno y byddai'r rhan hon o'r archwiliad yn cael ei gofnodi yn y nodiadau yn glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn dangos bod sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei gynnal.

⁶ Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis reolwr a oedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y practis. Roedd y practis yn dîm bach o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn ôl pob golwg. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u gwahanol rolau a chyfrifoldebau. Gwelsom fod y practis yn cael ei reoli'n dda. Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis yn aelod o Raglen Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.⁷ Roedd hyn yn golygu bod rhaglen sicrhau ansawdd barhaus ar waith er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu monitro.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys polisiau ysgrifenedig ynglŷn ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ymdrin â chwynion, storio a gwaredu gwastraff, a rheoli heintiau. Er bod manylion cyswllt timau diogelu lleol ar gael, gwnaethom argymhell y dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y polisiau amddiffyn oedolion a phlant, er mwyn i staff gael mynediad atynt yn haws. Roedd y cofnodion hyfforddi a welsom yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar weithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cefnogi hyn. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd ganddynt dystysgrifau cofrestru gan AGIC, ac roedd y rhain wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod y staff perthnasol a oedd yn gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau gweithredu priodol er mwyn sicrhau eu diogelwch a diogelwch y cleifion yn hyn o beth.

⁷ Mae Rhaglen Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn rhaglen sicrhau ansawdd sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymroddiad parhaus i gleifion o ran gweithio i safonau arfer da ynglŷn â'u cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal bob mis, ac roeddent yn trafod pynciau a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd cofnodion o gyfarfodydd yn cadarnhau'r drefn hon. Gwnaeth staff egluro hefyd fod sesiynau adrodd yn ôl yn cael eu cynnal, er mwyn darparu modd arall o gyfathrebu â'r tîm.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol. Gwelsom hefyd dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar destunau a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Roedd tystysgrif ar gael a oedd yn dangos bod yr offer nwy wedi cael eu gosod yn ddiogel, ond nid oedd gan berchnogion y practis contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer y boeler nwy. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis, ac argymhell y dylent wneud trefniadau addas er mwyn gwirio eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Gwnaethant gytuno i wneud hyn.

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefnau ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd y gweithdrefnau'n bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gofal a thriniaeth breifat. Roedd rheolwr y practis wedi cynnal cofnod ysgrifenedig o'r pryderon (cwynion) a dderbyniwyd, a chanfuom fod y rhain wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm, gyda'r nod o rannu unrhyw wersi y gellid eu dysgu trwyddynt.

Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y practis. Fodd bynnag, roedd y print yn fach, a gallai cleifion sydd â nam ar y golwg gael trafferth ei weld. Gwnaeth perchnogion y practis a'r rheolwr groesawu ein hargymhelliad i adolygu'r wybodaeth er mwyn iddi fod yn haws ei darllen. Roedd hefyd wybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn yn nhaflen y practis ac ar wefan y practis. Fodd bynnag, dywedodd tua hanner y cleifion a oedd wedi dychwelyd yr holiaduron (11 claf) nad oeddent yn ymwybodol o broses gwyno'r practis y dylid ei dilyn. Felly, gallai perchnogion y practis a rheolwr y practis wneud ymchwil i sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod lleoliad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Lleolir Practis Deintyddol Glyn-nedd yn nhref Glyn-nedd. Dywedwyd wrthym fod y safle'n cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol ers tua 30 mlynedd, ac i'r perchnogion presennol gymryd drosodd yn 2012.

Er nad oedd lleoedd parcio dynodedig ar gael at ddefnydd cleifion, roedd maes parcio cyhoeddus am ddim yn y dref yn agos. Roedd hefyd lleoedd parcio ar gael am gyfnod cyfyngedig, ar y brif ffordd yn syth y tu allan i'r practis.

Roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu allan, yn ôl pob golwg. Er bod arwyddion stryd at y practis, gallai perchnogion y practis ystyried ffyrdd o'i wneud yn haws dod o hyd i'r practis o'r brif ffordd. Roedd enwau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng, wedi'u harddangos yn glir wrth brif fynedfa'r practis. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis deintyddol pan oedd ar gau yn cael eu cyfeirio at rif i'w ffonio, pe bai angen triniaeth deintyddol frys arnynt.

Gwelsom y byddai mynediad i'r practis yn anodd ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, pe na bai neb gyda nhw i'w helpu. Roedd hyn oherwydd bod y fynedfa'n cynnwys stepen drws isel a drws a reolir â llaw. Gwnaethom drafod y mater hwn â staff y practis, a dywedwyd wrthym fod cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn bob amser yn dod gyda gofalwr neu berthynas. Gallai perchnogion y practis ystyried rhoi system addas ar waith er mwyn i gleifion roi gwybod i staff y practis eu bod wedi cyrraedd, a bod angen cymorth arnynt.

Roedd cyfleusterau yn y practis wedi cael eu trefnu dros ddau lawr. Gwnaeth arsylwadau ar y dydd gadarnhau bod nifer a maint yr ystafelloedd aros yn addas ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis. Roedd cyfleusterau staff a swyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd yr adeilad wedi ei addurno i safon dda y tu mewn. Nid oedd gan y practis dŷ bach at ddefnydd cleifion, ond nid yw hyn yn orfodol. Roedd tai bach ar gyfer staff. Yn ystod taith o gwmpas yr adeilad, canfuom fod y mannau'n lân ac yn ddaclus, ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n ddigonol. Roedd cyfleusterau addas ar gyfer golchi a sychu dwylo yn y tai bach er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd lleoedd storio o dan glo ar gael ar gyfer storio cofnodion mewn ffordd ddiogel. Roedd angen cyfrinair ar y staff i gael mynediad at gofnodion electronig. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol cleifion sy'n cael ei chadw yn y practis.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân wedi cael eu harddangos. Roedd diffoddwyr tân ar gael, ac roedd y labeli cynnal a chadw yn dangos eu bod wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth ar sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn tân, a bod offer addas ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Glyn-nedd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis:

Practis Deintyddol Glyn-nedd

Dyddiad yr Arolygiad:

18 Mehefin 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
9	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod polisi dadebru ysgrifenedig cyffredinol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y practis, a'i fod yn cael ei rannu ag aelodau perthnasol o dîm y practis. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.1)	Mae polisi dadebru wedi cael ei lunio yn unol ag argymhellion yr arolygydd.	Dharminy Martin	Cwblhawyd
11	Dylai perchnogion y practis sicrhau bod y sêl rhwng y wal a'r llawr yn cael ei newid (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn	Mae'r sêl wedi cael ei newid.	Dharminy Martin	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y cilfannau rhwng wal a llawr yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw perchnogion y practis atynt. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (6))			
11	Dylai perchnogion y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion yn dangos bod sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei gynnal. (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1)	Roedd sgrinio ar gyfer canser y geg eisoes yn cael ei gynnal, ond nid oedd yn cael ei ddisgrifio yn yr union eiriau hynny yn y nodiadau. Ers yr arolygiad, mae pob clinigydd wedi bod yn disgrifio'r broses hon yn benodol yn y cofnodion er mwyn dangos ei bod wedi cael ei chynnal.	Dharminy Martin	Cwblhawyd
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
	-			
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):Dharminy Martin.....

Teitl:Pennaeth y Practis.....

Dyddiad:07/07/15.....